Teigr yn yr ysgol

Ffyddlondeb / Dyfalbarhad / Ymddiriedaeth

Eisteddodd y teigr wrth ochr Heulwen yn y dosbarth. Cyrliodd ei gynffon o gwmpas ei gorff ac eisteddodd yno'n ddistaw bach.

Pan fyddai'r athrawes yn gofyn cwestiynau byddai'r teigr yn rhoi ei bawen i fyny yn yr awyr. Doedd o byth yn rhuo. Doedd o byth yn chwyrnu. Yn ystod amser chwarae dysgodd Heulwen y teigr sut i sgipio. Roedd y plant eraill i gyd yn edrych ar y teigr. Bob amser chwarae byddai Heulwen a'r teigr yn chwarae efo'i gilydd yng nghanol y buarth.

"Beth am i ni chwarae efo'r plant eraill?" gofynnodd y teigr.

Atebodd Heulwen, "Dydw i ddim yn hoffi chwarae efo'r bechgyn mawr. Mae'n nhw'n chwarae'n wyllt. Mae'n nhw'n gwthio pawb.

Rhuodd y teigr, "Wnawn nhw ddim fy ngwthio i," meddai. "Mae yna un bachgen yn yr ysgol – bachgen mawr, mawr. Huw Hir ydi enw fo. Mae Huw Hir yn fy ngwthio bob dydd" meddai Heulwen.

Roedd y bechgyn mawr yn chwarae'n wyllt a dyma Huw Hir yn dod i fyny at Heulwen. Dechreuodd redeg mewn cylchoedd gan ddod yn nes ac yn nes ati. "Dos oddi yma" meddai'r teigr, "mae peryg i ti daro fy ffrind."

"Na" meddai Huw Hir gan herio'r teigr.

Aeth Heulwen i guddio tu ôl i'r teigr. Dechreuodd y teigr ysgwyd ei gynffon yn ôl a blaen. Daeth Huw Hir yn nes ac yn nes. Rhuodd y teigr. Dangosodd ei ddannedd miniog oedd fel cyllyll. Stopiodd yn stond. Arhosodd. Syllodd ar y teigr. Agorodd y teigr ei geg yn llydan agored. Roedd ei geg mor fawr roedd ei dafod i'w gweld, a'i wddw yn union fel twnnel tywyll du. Gwelwodd Huw Hir. Rhuodd y teigr. RHUODD a RHUODD dros y lle. Roedd y plant i gyd yn crynu. Daeth yr athrawon i gyd i weld beth oedd yn digwydd ar y buarth. Roedd y plant wedi stopio chwarae. Roedd pob un ohonyn

nhw a'u bysedd yn eu clustiau. A dyma'r bachgen mwyaf un, Huw Hir yn rhedeg a rhedeg a rhedeg – allan o'r ysgol – ar hyd y stryd. Rhedodd yr holl ffordd adref at ei fam.
Daeth Heulwen i'r golwg. Roedd hi wedi bod yn llechu tu ôl i'r teigr.
"Wel" meddai, "does gen i ddim llawer o feddwl o Huw Hir. Dydw i ddim yn mynd i fod ofn Huw Hir byth eto."
Y bore dilynol cychwynnodd Heulwen yn brydlon am yr ysgol. Roedd hi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol.
Yn ystod amser chwarae daeth un o'r plant ati a gofyn. "Ble mae dy ffrind sy'n gweiddi'n uchel?"
"Dydi o ddim yma heddiw," meddai Heulwen.
"Tybed fydd o'n dod rhyw ddiwrnod arall?" gofynnodd eto.
"Efallai" meddai Heulwen. "Efallai y bydd o'n dod ryw ddiwrnod arall. Felly gwylia di, Huw Hir. Gwylia di."

O Dduw, weithiau rydw i ofn bob math o bethau. Wnei di fy helpu. Amen.

- Gwnewch restr o'r pethau rydych chi eu hofn.
- Gwnewch restr arall o'r pethau sydd eich ofn chi.
- Oes gennych chi greadur debyg i'r teigr sydd yn eich amddiffyn chi?